ADRODDIAD
A CHYFRIFON BLYNYDDOL
CHWARAEON CYMRU

2012 - 2013

CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC
YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU
1 EBRILL 2012 – 31 MAWRTH 2013

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwr, Sylwebaeth Reoli ac Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol.

Mae Chwaraeon Cymru yn Ymddiriedolai i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r nodau o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 o'r Siarter Brenhinol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a benderfynir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd Chwaraeon Cymru yng Ngherddi Sophia yng Nghaerdydd.

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi cofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r nodau elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny;

2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Y BWRDD

Yn ystod 2012/13, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

Yr Athro L McAllister **	(Cadeirydd Ailbenodwyd 01.02.2013)
Mrs Adele Baumgardt	(Is Gadeirydd Penodwyd 01.09.2012)
Mr David Roberts	(Ailbenodwyd 01.04.2011)
Mr Martin J Warren */**	(Ailbenodwyd 01.04.2011)
Yr Athro John Baylis*	(Penodwyd 01.04.2011)
Mr Richard Cuthbertson *	(Penodwyd 01.04.2011)
Mr Andrew Morgan	(Penodwyd 01.04.2011)
Mr Simon Pirotte	(Penodwyd 01.04.2011)
Mr Paul Thorburn	(Penodwyd 01.04.2011)
Mr Alan Watkin*	(Penodwyd 01.05.2011)
Ms Julia Longville	(Penodwyd 01.09.2012)
Ms Janet Kingston	(Penodwyd 01.09.2012)
Ms Johanna Lloyd	(Penodwyd 01.09.2012)
Mr Peter King	(Penodwyd 01.09.2012)

Dr H Jones (Prif Weithredwr)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
** Aelod o'r Pwyllgor Tâl

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

DATGAN DIDDORDEB

Mae holl Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt mewn Sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2012/13. Mae'r wybodaeth a ddarperir sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 24 yn cael ei datgelu yn Nodyn 20 y cyfrifon hyn.

SYLWEBAETH REOLI

Mae ein pwrpas fel asiantaeth ddatblygu ac eirioli chwaraeon yng Nghymru yn ddeublyg: ysbrydoli mwy o bobl i fod ac i barhau i fod yn egnïol am oes; a rhoi hwb i berfformiad ein hathletwyr, ein timau a'n hyfforddwyr elitaidd.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ac mae ganddo rôl mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ifanc, plant a'r genedl gyfan er mwyn cefnogi, cymryd rhan a rhagori mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau, gan groesawu ysbryd o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a dileu unrhyw ffurf ar wahaniaethu annheg.

Newid mewn Diwylliant

Nid yw'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn newydd o ran ei her a'i rhaglenni. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar gael mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach; ac ar Gymru'n sicrhau llwyddiant chwaraeon y gellir bod yn eiddigeddus ohono ar lwyfan y byd. Ond mae'n wahanol – yn uchelgeisiol ei sgôp, yn feiddgar ei chanlyniadau ac yn hynod heriol i'r sector chwaraeon. Nid yw'n ymwneud â dilyn proses newydd na chyflwyno rhaglenni newydd, ond mabwysiadu agwedd feddyliol newydd a gweithio'n wahanol. Nid beth rydym yn ei wneud mewn chwaraeon sy'n gorfod bod yn wahanol, ond sut rydym yn ei wneud. Yn gryno, mae'n rhaid i bob un ohonom ymrwymo i ddod yn sefydliadau sy'n perfformio'n eithriadol dda. Mae'r Weledigaeth yn gwneud i ni ymrwymo i'r canlynol:

- **defnyddio ein diwylliant o 'her fawr, cefnogaeth fawr' gyda'n gwaith â'n partneriaid**; gan symud y tu hwnt i weithgarwch cyswllt traddodiadol, at berthynas lle byddwn yn ei gwneud yn haws i bartneriaid bennu 'uchelgeisiau afresymol'.
- **gweithio'n gadarnhaol gyda'r chwaraeon hynny sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf**; y rhai sydd wedi'u hanelu at newid mawr o ddarparu cyfleoedd nid ar gyfer y cannoedd, ond y miloedd, a **chysoni ein buddsoddiadau yn unol â hynny** – yn seiliedig ar dystiolaeth o sicrhau canlyniadau mawr - er mwyn sicrhau cymaint o effaith ag y bo modd.
- gweithio'n fwy blaengar wrth gyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys rhoi **mwy o bwyslais ar yr angen am weithio gyda'r rhai mwyaf effeithiol wrth gyflwyno**, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach.
- **canolbwyntio ar alluogi newid sylweddol yng ngraddfa'r gweithgarwch cymunedol** fel bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon yn lleol.

- **adeiladu ar ein hymroddiad o'r newydd i gynyddu'r sylfaen o wirfoddolwyr** drwy roi sylw cadarnhaol i recriwtio, hyfforddi, defnyddio a dal gafael ar wirfoddolwyr. Mae'r sector chwaraeon ehangach ar y llwybr at adolygu ei ddull o gyflwyno hefyd; un sy'n cynrychioli ymroddiad cynyddol i fod yn perfformio'n hynod dda a chydnabod pwysigrwydd cydweithio ag eraill.

Mae'r diwylliant newydd hwn yn ymwneud â sefydlu newid mawr o ran arwain y sector chwaraeon. Rydym yn credu bod pum ffactor sylfaenol yn diffinio sefydliadau sy'n perfformio ar lefel uchel. Dyma'r ffactorau:

• pennu **uchelgeisiau afresymol.**
• datblygu strategaethau'n **seiliedig ar berfformiad** er mwyn cyflwyno'r weledigaeth hon.
• **dosbarthu'r arweiniad**, lle ceir swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer pawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r weledigaeth, a lle mae pobl yn cael eu hannog i fod yn atebol am eu gwaith.
• darparu **adborth o safon uchel** i'n galluogi i wella'n barhaus.
• **gweithio fel un**.

Mae'r egwyddorion uchod yn graidd canolog i'n Cynlluniau Corfforaethol a Busnes yn ystod y blynyddoedd nesaf. Os gallwn ni a'n partneriaid groesawu'r diwylliant hwn, yna gellir cyflawni cynnydd sylweddol mewn cyfranogiad mewn chwaraeon. Heb ddull hynod wahanol o weithio, dim ond mwy o'r un peth welwn ni.

EIN NODAU CORFFORAETHOL:

Mae ein tystiolaeth, a'r blaenoriaethau sydd wedi'u datgan yn y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, wedi helpu i ddylanwadu ar ein nodau corfforaethol. Pwrpas ein nodau yw ein helpu i gael mwy o effaith ar dwf y cymunedau chwaraeon ffyniannus ac ar y llwyddiant elitaidd ar y llwyfan Ewropeaidd, Cymanwlad a rhyngwladol. Dyma ein Nodau Corfforoaethol yn ystod 2012/13:

RHAGORIAETH MEWN CHWARAEON:
Mae chwaraeon potensial uchel yn cael gradd gadarnhaol wrth gael eu hasesu yn yr holl feysydd rhagoriaeth mewn chwaraeon.

BLAENGAREDD MEWN CHWARAEON:
Bydd pob partner a enwyd wedi dilyn y broses *Egwyddorion Buddsoddi Partneriaid* a chytuno ar gamau gweithredu clyfar. Sefydlu cynllun ymgysylltu i ymgorffori ymddygiad mewn adrannau a thimau ledled y sefydliad.

SGILIAU AR GYFER OES MEWN CHWARAEON:
Drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol Llywodraeth Cymru, sefydlu ymrwymiad i sicrhau cyfartaledd o ran parch i lythrennedd, rhifedd a llythrennedd corfforol.

CYMUNEDAU CHWARAEON:
Pob ardal i ffurfio cynllun ymgysylltu gyda'r 10 camp blaenoriaeth (unioni cyllid diamod – defnyddiwyd 80/20 i ystyried amrywiaethau lleol).

MEITHRIN GWEITHLU MEDRUS AC ANGERDDOL:
Parhau i roi blaenoriaeth i recriwtio, cadw a datblygu hyfforddwyr a gwirfoddolwyr, gyda ffocws arbennig ar hyfforddwyr.

Cyflawniadau a Pherfformiad yn Ystod y Flwyddyn

Mae wedi bod yn flwyddyn sydd wedi'i nodweddu gan lwyddiant, cyflawni a blaenoriaethau newydd. Bydd rhoi hwb i ehangder ac effaith chwaraeon, yn enwedig yn y sectorau addysg ac iechyd, yn dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer llywio ein hymdrechion.

Rydym yn falch o'r cynnydd da rydym yn ei wneud. Rydym wedi blaenoriaethu'r meysydd ble mae angen y cynnydd mwyaf ac, mewn sawl cyswllt, ble mae'n cael ei ddisgwyl fwyaf. Mae ein *Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru* wedi dechrau cael effaith ar waith partneriaid. Rydym wedi llwyddo i ysbrydoli dyheadau gwell ar gyfer twf chwaraeon a chynnwys pobl yn lleol. Rydym yn gweld cynlluniau clir ar gyfer denu mwy o bobl i wirfoddoli, a ffordd newydd o feddwl o ran strwythurau effeithiol i alluogi pobl i elwa o gyfleoedd hamdden mwy anffurfiol a chyfleoedd cystadleuol.

Mae'n bwysig bod ein partneriaid yn mynd ati mewn ffordd well i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno chwaraeon. Mae gennym fwy na 1800 o Lysgenhadon Ifanc wedi'u recriwtio yn awr, i ehangu apêl a chyrhaeddiad chwaraeon ymhlith plant a phobl ifanc. Rhaid i ni ddefnyddio'r rhain, wrth symud ymlaen, i ymgorffori llais pobl ifanc ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae cynllun 5x60 yn cael effaith wirioneddol ar gyfranogiad merched ac mae parch mawr i'n rhaglen AG a Chwaraeon Ysgol (AGChY) ar ôl ei hailstrwythuro. Mae creu amgylchedd deniadol, heb unrhyw rwystrau i atal plant rhag cymryd rhan, yn dechrau dod yn fwy o flaenoriaeth i'n hysgolion ni, ond rydym eisiau gweld mwy fyth o gynnydd yn y maes hwn. Gan gydnabod pwysigrwydd y sgiliau priodol fel galluogwr allweddol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a'u mwynhau, gweithredwyd Campau'r Ddraig ac Aml-Sgiliau'r Ddraig gennym. Mae'r adnodd hwn a'r hyfforddiant yn ategu'r adnodd chwarae i ddysgu hynod lwyddiannus. Mae'r adnodd yn cefnogi datblygiad sgiliau sylfaenol ac fe'i cyflwynir mewn ffordd sy'n cynnwys merched yn eu dysgu ac sy'n eu cymell i gymryd rhan. Mae'r adnodd yn darparu'r 'beth' ond, yn bwysiach fyth, mae'r hyfforddiant yn darparu'r 'sut'. Cyflwynir y sesiynau hyn er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu sgiliau ac yn cael eu cymell wedyn i gymryd rhan mewn chwaraeon am oes.

Mae *Menter Nofio Am Ddim* a *Dysgu Nofio* Llywodraeth Cymru wedi profi cynnydd cadarnhaol yn nifer y gweithgareddau strwythuredig o ganlyniad i gamau gweithredu Awdurdodau Lleol.

Rydym wedi bod yn dyst i flwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen o chwaraeon, gyda Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn cael eu cynnal yn Llundain. Yng Nghymru y cynhaliwyd cystadleuaeth gyntaf y Gemau Olympaidd, gyda chystadleuaeth pêl droed y merched yn rhoi cychwyn i bethau yn adeilad eiconig Stadiwm y Mileniwm. Sicrhaodd athletwyr Cymru a oedd yn rhan o Team GB a Paralympics GB bod Cymru wedi cael ei Gemau mwyaf llwyddiannus yn yr oes fodern, gan ennill 7 medal Olympaidd a phymtheg medal Paralympaidd. Hefyd, roedd y 68 o athletwyr a ddewiswyd ar gyfer timau Prydain Fawr yn nifer uwch nag erioed o'r blaen.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cenedl o Bencampwyr wedi dod i'r amlwg eleni yn y llu o bencampwyr byd sydd gennym: Dai Greene (400m clwydi), Nathan Stephens (gwaywffon), Chaz Davies (rasio modur), Helen Jenkins (triathlon), Nathan Cleverly (bocsio) a Hannah Mills (hwylio), ac, wrth gwrs, ein tîm rygbi a gipiodd y Gamp Lawn.

Rydym yn eithriadol falch o lwyddiant ein hathletwyr – maent yn fesur o ansawdd y rhwydwaith cefnogi sydd y tu ôl iddynt. Ers cyhoeddi bod y Gemau i gael eu cynnal yn Llundain saith mlynedd ymlaen llaw, rydym wedi rhoi cynlluniau yn eu lle i sicrhau'r cyfleoedd etifeddiaeth gorau posib. Mae ein paratoadau wedi arwain at ganlyniadau gwirioneddol o ran trosi'r bwrlwm Olympaidd yn gyfranogiad ar lawr gwlad. Mae chwaraeon ffocws allweddol, fel gymnasteg, hoci a nofio, wedi profi twf o fwy na 25% ers y Gemau Olympaidd – dim ond oherwydd y paratoadau a wnaed cyn y Gemau Olympaidd oedd hyn yn bosib.

Gyda phwyslais parhaus ar wneud chwaraeon anabledd yn fwy cynhwysol ac yn ddarpariaeth prif ffrwd, mae ein henw da ym myd chwaraeon anabledd yn parhau'n destun eiddigedd yng ngwledydd eraill y DU ac yn ennyn parch rhyngwladol i Gymru.

Rydym wedi dechrau gweld cynnydd da drwy weithredu'r egwyddorion perfformiad uchel. Rydym hefyd wedi datblygu ein hegwyddorion buddsoddi partneriaid a bydd partneriaid yn hunanasesu yn erbyn meini prawf cadarn o ran arweiniad, cyflwyno a dull gweithredu. Mae hyn ar waith eisoes. Bydd y broses hon yn arwain at her sylweddol i bartneriaid o ran gwella perfformiad, ond mae angen rhagor o gynnydd er mwyn gwella cysondeb a buddsoddiadau. Ochr yn ochr â'n buddsoddiadau mwy traddodiadol, rydym hefyd wedi ceisio bod yn fwy arloesol a buddsoddi rhagor yn y Gemau Ysgolion, yr Urdd a StreetGames.

Cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer ein Harolwg bob dwy flynedd ar Oedolion Egnïol yn ystod y flwyddyn. Yn siomedig, roedd ansawsterau gyda chwblhau'r nifer gofynnol o gyfweliadau. Yn fasnachol, mae Chwaraeon Cymru wedi cael iawndal priodol am hyn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod beth fydd yr effaith ar ein hymchwil, yn enwedig ar lefel fanylach, am gryn amser eto.

Rydym wedi gweithio yn ystod y flwyddyn ar barhau â'n hymrwymiad i weithredu rhagoriaeth trefniadaethol. Mae ailddiffinio swyddogaethau pobl, diwylliant y sefydliad a sut rydym yn cyflawni agenda'r Llywodraeth wedi bod yn her fawr, ond yn un angenrheidiol. Er mwyn newid ein diwylliant cyflawni a pherfformio, roedd rhaid wrth newid yn y strwythur staffio. Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn yn 2011/12 ac fe'i cwblhawyd i raddau helaeth yn 2012/13. Mae hyn wedi arwain at ddiswyddo 27 o bobl o'r sefydliad. Mae'n galluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion yn well wrth i gyllid y sector cyhoeddus wynebu anawsterau, gan dynnu mwy nag £800k o gostau staffio blynyddol o'r gwariant.

Ein targedau allweddol ar gyfer 2012-2013:

	Dragon Registrations	5x60 attendance	5x60 frequency	All Swims per 1000 population	Learn to swim rates at age 11	No. Schools Active Marc	Number of active Coaches and officials	Adult membership Senior Men	Adult membership Senior Women	Junior Club membership boys	Junior club membership girls	Number of clubs
			20									
2011-12 Actual*	209,804	1,071,360	16,885	1303	70%	191	35,861	249,352	39,924	139,437	43,001	5,624
2012-13 Target*	223,259	1,201,643	23,198	1532	83%	251	42,257	261,771	43,467	155,359	46,364	5,962
2012-13 Actual*	223,755	1,258,615	20,326	1460	75%	258	43,043	254,479	46,180	140,928	44,156	5,520
2013-14 Target	250,066	1,202,128	25,654	1690	78%	315	50,281	295,028	52,665	158,098	51,909	5,840

*Seilir data'r ysgolion (Campau'r Ddraig/5x60/ActiveMarc) ar flwyddyn academaidd 2011/12

Rydym yn eithriadol falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn ein targedau allbwn allweddol – mae ein dull "uchelgais afresymol" o weithredu wedi arwain at ganlyniadau gwirioneddol, yn enwedig yn erbyn meysydd ffocws allweddol fel hyfforddiant a merched a genethod. Er nad ydym wedi cyrraedd nifer o'r targedau yn y tabl uchod, nid ydym yn digalonni. Mae'n adlewyrchu ein "huchelgais afresymol" ar waith.

CANLYNIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 yn £27,230,000 (2011/12 £28,343,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn, ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn danwariant o £374,000 (2011/12 gorwariant o £318,000). Sicrhawyd y cynnydd o £374,000 ar ôl codi dibrisiant o £566,000 a chost cyllid pensiwn o £370,000; ac i raddau helaeth, roedd yn unol â'r disgwyliadau.

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau yn y Dyfodol

Mae ein gwaith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn adeiladu i raddau helaeth ar ein sefyllfa bresennol. Ymhlith cyfres lawer ehangach o amcanion, mae'r bwrdd wedi tynnu sylw at y pethau mwyaf allweddol i'w cyflawni yn ei farn ef ar gyfer 2013/14:

Cydraddoldeb
Cyflwyno ymgyrch gyfathrebu ar gyfer merched a genethod er mwyn dylanwadu ar lefelau cymryd rhan a'u cynyddu.

Blaengaredd Mewn Chwaraeon
Egwyddorion Buddsoddi Partneriaid: 59 o Bartneriaid i gwblhau'r broses hunanasesu fel sail i fuddsoddiad y Bwrdd.

Chwaraeon Cymunedol
Gweithio gyda'r 10 camp ffocws: cydlynu'r gwaith cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol i sicrhau bod y canlyniadau chwaraeon cymunedol yn cael eu cyflawni cystal â phosib ar y cyd.

Sgiliau ar gyfer Oes mewn Chwaraeon
Ystyried a chefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion perthnasol *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol* Llywodraeth Cymru.

Meithrin gweithlu medrus ac angerddol
Datblygu ein dull o arwain mewn chwaraeon; canolbwyntio ar Raglen Datblygu Arweiniad y DU a'r Rhaglen Merched yn Arwain ddiwygiedig.

Gwella sgiliau staff a chydweithwyr y sector; galluogi iddynt seilio eu canllawiau a'u penderfyniadau ar dystiolaeth o safon uchel er mwyn gwella canlyniadau chwaraeon.

Rhagoriaeth Mewn Chwaraeon
Sicrhau, drwy gyfrwng cefnogaeth a her briodol, bod yr holl chwaraeon potensial uchel yn wyrdd o leiaf wrth gael eu hasesu, er lles cyffredinol y system a'r targed sylfaen ar gyfer medalau. Yn yr un modd, Categori B i fod yn wyrdd ar gyfer targed sylfaen y medalau.

Gweithredu rhaglen fuddsoddi newydd ar gyfer chwaraeon Olympaidd penodol er mwyn cynyddu nifer yr athletwyr a ddewisir ar lwybrau PF a rhaglen Safon Byd UK Sport. Mewn partneriaeth ag UK Sport, sefydlu rhaglen datblygu talent yng Nghymru gyda ffocws ar lwyddiant systematig yn y Gemau Cymanwlad ar ôl 2014.

Mae Gemau Cymanwlad Glasgow 2014 yn hynod bwysig i ni, oherwydd dyma'r unig gystadleuaeth amlchwaraeon yn y byd y gall Cymru gystadlu ynddi fel gwlad. Rydym eisiau gorffen yn rhif un fel gwlad yn nhabl y medalau o ran nifer y medalau a enillir y pen am y boblogaeth. Mae cynrychiolaeth Cymru yn TeamGB a ParalympicsGB yn rhoi hwb i ni, gyda 18 allan o'r 30 o athletwyr o Gymru'n cystadlu am y tro cyntaf yn y Gemau Olympaidd yn Llundain. Mae'r sêr ifanc talentog hyn yn enghreifftiau unigol o ddyfodol chwaraeon disglair Cymru ac mae'n rhaid i ni eu cefnogi a'u meithrin.

Yn ystod cyfnod ein Cynllun Corfforaethol 2013-2016, bydd y canlyniadau allweddol canlynol yn cael eu mesur:

- Canran y bobl ifanc ym mlynyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos mewn lleoliad allgyrsiol a/neu glwb;
- Canran y bobl ifanc ym mlynyddoedd ysgol 3-11 sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb;
- Canran yr oedolion ifanc 16-24 oed sy'n cymryd rhan deirgwaith yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod y pedair wythnos blaenorol;
- Canran yr oedolion 15+ oed a wirfoddolodd yn ystod y 12 mis diwethaf;
- Cyflawniad mewn Addysg Gorfforol yng Nghyfnod Allweddol 3 (5+).

Gellir adrodd ar fesurau canlyniad poblogaeth bob dwy flynedd.

ADNODDAU DYNOL

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol, ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y PCS. Mae'r holl bolisïau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu.

DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae'r data salwch ar gyfer 2012/13 (2011/2012) fel a ganlyn:

Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd	Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn)	Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen
750.00 (698.47)	144.15 (150.48)	5.20 (4.64)

Buddsoddi yn Ein Pobl

Mae gan Chwaraeon Cymru statws "Buddsoddwyr mewn Pobl" ac mae ei bolisïau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiadau fel sefydliad dysgu.

CYNLLUN PENSIWN

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Mae'r Gronfa'n gynllun buddiannau pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, ac mae ei hasedau'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gaiff ei gronni cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80^{fed} gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60^{ain} a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau cyflogeion a staff maniwal yn cael eu pennu ar 5.5% i 7.5% yn seiliedig ar ystod cyflog.

DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau'n sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

CANFOD A RHEOLI RISG

Ceir manylion ar Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 15.

POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998), ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb dilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013, talodd Chwaraeon Cymru 99% (2011/12 98%) o'i holl anfonebau gan gadw at ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.11 y datganiadau ariannol.

TÂL ARCHWILWYR

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n goruchwylio natur a swm y gwaith heb fod yn waith archwilio a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2012/13, gwnaed gwerth £4,000 o waith heb fod yn waith archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwaith Sicrwydd Ychwanegol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, a

2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Materion Cymdeithasol a Chymunedol

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan sawl dogfen allweddol: y Rhaglen Lywodraethu; Creu Cymru Egnïol, y cynllun gweithredu strategol pum mlynedd i gyflwyno Dringo'n Uwch; a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Adlewyrchir y Rhaglen Lywodraethu yn Llythyr Gorchwyl y Gweinidog i Chwaraeon Cymru.

Mae egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant yn sail i strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, Creu Cymru Egnïol. Dyma nod y strategaeth:

Cymru egnïol, iach, gynhwysol, lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yn rhoi llwyfan cyffredin ar gyfer cymryd rhan, cael hwyl a llwyddo, sy'n clymu ynghyd gymunedau a'r genedl, a lle mae amgylchedd eithriadol Cymru yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy i wella ein hyder ynom ein hunain a'n lle yn y byd.

Yn sail i'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru mae pedair strategaeth gefnogi Chwaraeon Cymru: y Strategaeth Chwaraeon Cymunedol; y Strategaeth Tlodi Plant; y Strategaeth Chwaraeon Elitaidd a'r Strategaeth Hyfforddi a Gwirfoddoli.

Mae'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol a'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymateb i faterion cymdeithasol a chymunedol. Mae Chwaraeon Cymru eisiau cael pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes ac mae ein blaenoriaethau'n sail strategol i'n gwaith ni o ran cyflawni Amcan Craidd 4 yn 7 Amcan Craidd Llywodraeth Cymru, sy'n datgan y dylai pob plentyn a pherson ifanc "gael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol". Mae hyn yn golygu gweithio gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc gymryd rhan a'n bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni i oresgyn y rhwystrau sy'n atal hyn.

Mae'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol yn datgan yn glir ein blaenoriaethau i alluogi newid dramatig yn ystod a nifer y bobl sy'n ymwneud â chwaraeon lleol. Nid Chwaraeon Cymru ar ei ben ei hun fydd yn cyflwyno'r Strategaeth Tlodi Plant, ond mae'n amlinellu ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Yn ogystal â chynllunio a chyflwyno ein cyfraniadau at y strategaethau hyn, rydym hefyd yn cefnogi ein partneriaid i gynllunio, datblygu a chynnal eu cyfraniadau. Rydym yn cydnabod na allwn gyflwyno agenda'r Llywodraeth heb ein partneriaid.

Cynaliadwyedd

Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati i sefydlu polisïau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd, a chyflawnir y prif elfen drwy Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd* a thrwy weithio ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Carbon.

Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma gan Chwaraeon Cymru wedi lleihau'r defnydd o nwy, olew a thrydan dros nifer o flynyddoedd, gan arwain nid yn unig at lai o ôl troed carbon, ond hefyd at gostau tanwydd is. Mae penderfyniad Chwaraeon Cymru i leihau effaith amgylcheddol ei weithgareddau wedi cael ei gydnabod drwy ddyfarnu achrediad lefel tri safon y Ddraig Werdd i'n Canolfan Genedlaethol ym Mhlas Menai ac achrediad lefel dau y Ddraig Werdd* i Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd. Hefyd, sicrhaodd Plas Menai gyllid grant yn ystod y flwyddyn tuag at gostau system reoli amgylcheddol, gyda'r nod o gyflwyno arbedion ynni arwyddocaol yn y dyfodol. Gweithredir hyn yn 2013/14.

Mae'r prif arferion cynaliadwy a ddefnyddir ledled Chwaraeon Cymru fel a ganlyn:

- Defnydd o gyfryngau electronig lle bo modd, yn lle cael unigolion yn teithio i ddigwyddiadau.
- Mae offer TGCh, cardfwrdd, papur, arlliwyddion, poteli a chaniau'n cael eu casglu a'u hailgylchu.
- Defnyddir synwyryddion golau a symudiad i reoli'r goleuadau.
- Defnyddir papur wedi'i ailgylchu ym mhob swyddfa.
- Ceir gorsafoedd ailgylchu ym mhob swyddfa ac yn y Canolfannau Cenedlaethol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cydnabod yr angen am ddull mwy cyson o weithredu mewn perthynas â chynaliadwyedd ac mae'n datblygu Polisi Amgylcheddol Corfforaethol a fydd, unwaith y cytunir arno, yn arwain camau gweithredu'r sefydliad yn y dyfodol.

CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r gost gysylltiedig.

Gwastraff		**2012/13**	**2011/12**
Heb fod yn ariannol	Cyfanswm KG	55,186	AMH

Nwy Tŷ Gwydr		**2012/13**	**2011/12**
Co2	Cyfanswm allyriadau crynswth (Co2)	1,705,976	1,569,204
	Cyfanswm allyriadau net (Co2)	1,705,976	1,569,204
	Allyriadau crynswth, sgôp 1	762,727	669,476
	Allyriadau crynswth, sgôp 2	943,249	899,728
Defnydd o ynni	Trydan (heb fod yn adnewyddadwy)	1,812,652	1,729,015
kWh	Trydan (adnewyddadwy)	0	0
	Nwy	1,256,517	1,271,053
	Olew Nwy	1,707,263	1,381,594
Dangosyddion	Gwariant – ynni	357,171	303,393

Ar hyn o bryd, nid oes gan Chwaraeon Cymru darged penodol ar gyfer ei allyriadau carbon, oherwydd bydd hwn yn rhan o'r Polisi Amgylcheddol Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r prif effeithiau uniongyrchol ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei ddefnydd o ynni ac mae rhaglenni effeithlonrwydd yn eu lle i leihau'r effeithiau hyn lle bo hynny'n bosib.

Adnoddau y mae pen draw iddynt		**2012/13**	**2011/12**
Heb fod yn ariannol (M^3)	Cyflenwyd	12,720	13,369
	Tynnwyd	2,613	2,786
Dangosyddion ariannol	Costau cyflenwi dŵr	34,737	36,024

Teithio		2012/13	2011/12
Co2	Rheilffordd	12,494	AMH
	Awyr	3,758	AMH
	Car (tacsi/bws ac ati)	1,431	AMH
	Defnydd o gar personol	55,213	AMH
	Cyfanswm	**72,896**	**AMH**
Cost	Rheilffordd	20,286	AMH
	Awyr	3,282	AMH
	Car (tacsi/bws ac ati)	2,051	AMH
	Defnydd o gar personol	81,416	AMH
	Cyfanswm	**107,035**	**AMH**
Milltiroedd	Rheilffordd	134,214	AMH
	Awyr	12,916	AMH
	Car (tacsi/bws ac ati)	883	AMH
	Defnydd o gar personol	180,925	AMH
	Cyfanswm	**328,938**	**AMH**

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer adrodd yn ôl, nid oedd y ffigurau sydd wedi'u marcio ag AMH ar gyfer 2011/12 ar gael.

CO2 Emissions



	Scope 1 Gas/Oil	Scope 2 Electric	Scope 3 Travel	Total
2011/12	669,476	899,728	0	1,569,204
2012/13	762,727	943,249	72,896	1,778,872

Financial Indicators



	Scope 1 Gas/Oil	Scope 2 Electric	Scope 3 Travel	Total
2011/12	133,279	170,114	0	303,393
2012/13	154,880	202,290	107,035	464,205

Cadwraeth a Bioamrywiaeth

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd, wedi'i lleoli mewn gardd restredig Gradd 2 ac mae gan y coed i gyd Orchmynion Cadw Coed ac fe'u rheolir yn unol â'r gorchmynion hyn.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ym Mhlas Menai'n cynnal cyrsiau addysg amgylcheddol forol ar Afon Menai, mae wedi plannu ac yn rheoli coetir ac mae blychau adar wedi cael eu lleoli o amgylch y safle.

Caffael Cynaliadwy a'r Dyfodol

Mae polisi caffael Chwaraeon Cymru yn datgan ei bod yn ofynnol i'r holl ddyfarniadau Caffael sy'n fwy na £10,000 gael eu dyfarnu ar y sail eu bod yn cynnig "cyfuniad optimwm o gostau bywyd cyfan a manteision i fodloni gofynion Chwaraeon Cymru". Mae costau bywyd cyfan yn ystyried nid dim ond y pris prynu, ond hefyd yn ystyried cost barhaus perchnogaeth, cynnal a chadw a defnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn ymgorffori polisïau cynaliadwy yn ein gweithrediadau ac yn gweithio tuag at y canlynol:

- Gwella'r adrodd ar reoli gwastraff.
- Creu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y staff.
- Parhau i gynnwys cynaliadwyedd yn ein gweithrediadau, lle bo hynny'n briodol.

ADRODDIAD TÂL

Yn unol â Phennod 5 o'r Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r Uwch Staff sydd â chyfrifoldeb am reoli adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i ddatganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau Aelodau ac Uwch Staff Chwaraeon Cymru.

Polisi Tâl

Telir i'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Llywodraethu a Noddir gan y Cynulliad a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a gefnogir gan Reolwr Adnoddau Dynol Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru.

Contractau Gwasanaeth

Cyflogir Uwch Staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Telir cyfradd ddyddiol o £337 i'r Cadeirydd ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Mae Aelodau eraill y Cyngor yn cael cyfradd ddyddiol o £282 ac yn cael contract i weithio deuddydd y mis.

Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o 4 mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr Uwch Staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth a bonws perfformiad, os yn berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £76,416, (2011/12 £76,416). Ni wnaed taliadau bonws i'r Prif Weithredwr nac i unrhyw aelod arall o staff yn ystod y flwyddyn (2011/12 £Dim). Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Prif Weithredwr ei fwriad i ymddeol yn gynnar ac, o ganlyniad, mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud darpariaeth o £77,000 yn ei gyfrifon, sy'n cynrychioli'r cyfraniad sy'n ofynnol tuag at y baich ar y gronfa bensiwn o ganlyniad i'r ymddeoliad cynnar hwn. Neilltuir cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr i'r loteri.

Manteision mewn nwyddau neu gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

Ceir rhagor o fanylion am dâl a buddiannau pensiwn y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r uwch gyfarwyddwyr eraill yn nodyn 6(d) y datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYNGOR CHWARAEON CYMRU A'R PRIF WEITHREDWR

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a than 21 Mehefin 2013, Dr H Jones oedd y Swyddog Cyfrifo ar gyfer Chwaraeon Cymru. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifo'n cael eu datgan yn y Datganiad hwn. Ar 21 Mehefin 2013, ysgwyddodd Sarah Powell, Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru.

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1972, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiadau o gyfrifon ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei incwm a'i wariant a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

SWYDDOG CYFRIFO: S Powell
10 Gorffennaf 2013

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2012/2013

Cyflwyniad

Ar 21 Mehefin 2013, fe dderbyniais i gyfrifoldeb Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru gan Dr H Jones.

Mae'r deunydd canlynol wedi cael ei gyflwyno i mi gan Dr H Jones, i gefnogi fy ystyriaeth o'r wybodaeth y mae'n ofynnol i mi ei chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rydw i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Cod Llywodraethu Corfforaethol 2012 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodwyd i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriad eang o wahanol chwaraeon ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd. Yn ystod y flwyddyn, ailbenodwyd y Cadeirydd gan Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am chwaraeon, sef Huw Lewis AC.

Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni'r canlynol: adolygu strategaethau a pholisïau; derbyn adroddiadau gan weithgor ar faterion penodol; a derbyn a chraffu ar adroddiadau perfformiad ac ariannol. Canfu Holiadur Llywodraethu a gwblhawyd gan aelodau'r bwrdd bod yr wybodaeth a oedd yn cael ei darparu'n cael ei hystyried yn fwy na digonol.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn y tabl isod.

Aelod o'r Bwrdd	**Cyfarfod Bwrdd** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)	**Y Pwyllgor Archwilio** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd)
Yr Athro L McAllister (Cadeirydd)	5	Amherthnasol
Adele.Baugmgardt (Is Gadeirydd)	3	Amherthnasol
David Roberts	5	Amherthnasol
Martin J Warren	4	4
John Baylis	4	3
Richard Cuthbertson	4	3
Andrew Morgan	5	Amherthnasol
Simon Pirotte	4	Amherthnasol
Paul Thorburn	4	Amherthnasol
Alan Watkin	5	4
Julia Longville	3	Amherthnasol
Janet Kingston	2	Amherthnasol
Johanna Lloyd	3	Amherthnasol
Peter King	2	Amherthnasol
(Aelodau allanol – Pwyllgor Archwilio yn unig)		

Sandy Blair	Amherthnasol	3
Keith Evans	Amherthnasol	3
Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb	**88**	**88**

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae'r Bwrdd wedi cytuno i'r strwythur llywodraethu canlynol:

- Dau bwyllgor parhaol; Y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl
- Grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd (rhestrir isod)
- Y Tîm Rheoli Gweithredol a'r strwythur staffio

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd hwn;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodi Ariannol).

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynnwys pedwar Aelod Bwrdd a dau aelod allanol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau yn 88%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith adolygu rheoli risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol a'r Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol;
- cydymffurfiaeth â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- dogfen y Fframwaith Llywodraethu;
- y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol corfforaethol; a
- y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n adrodd yn ôl ar lafar i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cofnodion y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd hefyd.

Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2012/13, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth nac unrhyw wendidau rheoli arwyddocaol i adrodd yn ôl yn eu cylch ac roedd y Pwyllgor Archwilio'n fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

Y Pwyllgor Tâl

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth aelodau'r pwyllgor tâl am ei fwriad i wrthod unrhyw fonws y byddai'n ei gynnig iddo oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol. Oherwydd hyn, ynghyd

â'r ffaith bod cyflogau'r sector cyhoeddus wedi cael eu rhewi, ni chyfarfu'r pwyllgor yn ystod 2012/13.

Grwpiau gorchwyl a gorffen

Penodir grwpiau gorchwyl a gorffen gan y Bwrdd yn ôl yr angen. Mae'r grwpiau'n cynnwys aelodau'r Bwrdd a benodwyd gan y Cadeirydd a hefyd swyddogion Chwaraeon Cymru. Eu pwrpas yw darparu help a chyngor ychwanegol i'r Bwrdd oddi mewn i themâu penodol ac maent yn cyfarfod ar sail ad-hoc.

Yn ystod 2012/13, roedd y grwpiau gorchwyl a gorffen canlynol yn weithredol:

- Y grŵp Eiriolaeth;
- Y grŵp Eiriolaeth Llywodraeth Leol;
- Y grŵp Ffocws 2014;
- Y grŵp Rheoli Perfformiad; a
- Y grŵp Pontio (a sefydlwyd i oruchwylio'r gwaith o recriwtio Prif Weithredwr newydd)

Penodir Cadeirydd i bob grŵp gorchwyl a gorffen, sy'n adrodd yn ôl wedyn ar lafar yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifo) a phedwar Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn, ailstrwythurwyd swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'i newid am rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd, gyda phwyslais cynyddol ar fanteisio i'r eithaf ar botensial masnachol Chwaraeon Cymru.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn fisol o leiaf, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Adolygwyd effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor yn dilyn arolwg ar yr aelodau yn ystod sesiwn y Bwrdd ym mis Medi.

Er mwyn ceisio bod yn fwy effeithiol, ystyriodd y Bwrdd y canlynol:

- Digonolrwydd yr amser i herio'r uwch dîm rheoli gweithredol yn effeithiol;
- Sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cefnogaeth a her;
- Rôl y Cadeirydd mewn annog trafodaeth adeiladol;
- Y broses o wneud penderfyniadau;
- Ansawdd a swm yr wybodaeth a ddarperir;
- Effeithiolrwydd y grwpiau gorchwyl a gorffen.

Er bod y Bwrdd yn teimlo bod ansawdd y data a roddir iddo'n ddigonol i ddiwallu ei anghenion sicrwydd/gwneud penderfyniadau, bydd dulliau adrodd yn ôl chwarterol yn cael eu hadolygu yn ystod 2013/14 fel rhan o'r ymgyrch tuag at welliannau parhaus. Hefyd, yn ystod y flwyddyn

ariannol ganlynol, bydd yr Is Gadeirydd yn ymgymryd ag adolygiadau perfformiad gyda'r aelodau sydd wedi gwasanaethu ar y Bwrdd ers amser maith.

RHEOLI RISG

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu'r holl risg o fethu cyflawni polisïau, amcanion a nodau; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Gyngor Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Rydym wedi cofnodi Polisi Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut rydym yn canfod, yn dadansoddi ac yn rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i a'u rheoli gan y rheolwr priodol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol neu, mewn rhai achosion, fi fy hun fel y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu, yn enwedig y rhai yn y ddwy ganolfan genedlaethol, yn gyfrifoldeb y rheolwyr perthnasol, ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'w his-swyddogion.

Gall swyddogion Chwaraeon Cymru, y Pwyllgor Archwilio neu'r Bwrdd ganfod risgiau newydd. Ar ôl canfod risg newydd, ac os credir ei bod yn risg sylweddol, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg a'i dwyn i sylw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a / neu'r rheolwr.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r strategaeth rheoli risg yn diffinio sut mae'r risg a reolir gan Chwaraeon Cymru yn cael ei chanfod, ei hasesu a'i rheoli. Mae risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Yn ystod 2012/13, prif elfen y strategaeth rheoli risg oedd y Gofrestr Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn ddatrysiad electronig ac mae ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein.

Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg yn rheolaidd gan y rheolwyr, ac adroddir yn ôl arni i'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, roedd y polisi a oedd yn gofyn i reolwyr fynychu cyfarfodydd y pwyllgor archwilio'n parhau'n weithredol. Wrth fynychu'r pwyllgorau, roedd y rheolwyr yn mynd drwy eu hadrannau hwy o'r Gofrestr Risg, gyda phwyslais ar egluro'r mesurau rheoli yr oedd ganddynt yn eu lle i atal neu reoli'r risg.

Fel rhan o'r rhaglen archwilio fewnol, tynnwyd sylw at sawl maes allweddol o risg, ac maent wedi cael eu gwerthuso er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys: adolygiad o system archebu Plas Menai; adolygiad o'r system cerdyn caffael; ac adolygiad o'r gofrestr rhoddion a lletygarwch.

Mae lefel y risg ariannol yn Chwaraeon Cymru yn isel. Sbardunir hyn yn bennaf gan natur arian cyhoeddus. O ganlyniad, mae buddsoddiadau'n tueddu i gael eu gwneud drwy bartneriaid cyflwyno fel Awdurdodau Lleol, sydd â natur debyg o osgoi risg. Os yw Chwaraeon Cymru wedi dewis dull neu bartner arloesol neu heb ei brofi, mae hyn wedi cael ei wneud yn ofalus drwy fuddsoddiad cymedrol iawn ac mae'n cynrychioli risg fechan sy'n berthnasol i gynllun cyflwyno/portffolio o fuddsoddiadau cyffredinol. Gwneir defnydd o lefel risg Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng asesiadau risg unigol y rheolwyr ac maent yn cael eu monitro drwy gyfrwng yr adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

Ni ddosbarthwyd unrhyw ddarganfyddiadau archwilio fel risg "uchel" neu "uchel iawn". Hefyd, o ganlyniad i'r adolygiad hwn, ni chafodd unrhyw risgiau ychwanegol newydd a sylweddol eu canfod.

Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r rheolwyr yng Nghyngor Chwaraeon Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a'r sylwadau sy'n cael eu gwneud gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Rwyf wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol drwy gyfrwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac rwy'n bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system sydd yn ei lle.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Chwaraeon Cymru yn ystod 2012/13 gan KTS Owens Thomas Ltd, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffiniwyd yn y Llawlyfr Archwilio Mewnol. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Mae Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn datgan "Nid yw'r gwaith yr ydym wedi ymgymryd ag ef yn ystod y flwyddyn wedi tynnu sylw at unrhyw wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu a rheoli risg y sefydliad, ac rydym yn fodlon bod Chwaraeon Cymru, yn gyffredinol, yn ymwybodol o'r angen am systemau rheoli digonol, ac yn eu gweithredu". Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddatgan "Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr er mwyn datrys rhai o'r gwendidau y tynnwyd sylw atynt, rydym yn credu y gall Chwaraeon Cymru fod yn fodlon bod ei systemau'n darparu sail ar gyfer galluogi rheolaeth ariannol a dull rheoli effeithiol".

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru. Mae'r adroddiad yn mynegi unrhyw bryderon ynghylch digonolrwydd y systemau rheoli risg sydd yn eu lle yn Chwaraeon Cymru.

Datblygiadau Parhaus

Er bod system gref o reolaeth fewnol yn ei lle, ceir bob amser feysydd a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau. Gan feddwl am yr ethos hwn o welliannau parhaus, bydd y mesurau rheoli'n cael eu gwella yn ystod 2013/14 drwy weithredu'r canlynol:

- Sefydlu dulliau chwarterol gwell ar gyfer adrodd yn ôl i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar nodau blaenoriaeth y Cynllun Busnes a gofynion y Llythyr Gorchwyl;
- Sicrhau cysondeb o ran arddull a strwythur yn y cynlluniau busnes Adrannol yn sail i'r uchod;
- Adrodd yn ôl thematig gan brif reolwyr ar y pum maes blaenoriaeth sydd wedi'u datgan yn nogfen y Weledigaeth;
- Ffocws ar well cyfarfodydd un i un er mwyn sicrhau effeithiolrwydd pob aelod o staff;
- Cyflwyno asesiadau 360 gradd yn sail i'r uchod;
- Datblygu canllawiau ar gyfer rôl timau ac yna canllawiau ar gyfer rôl unigolion er mwyn sicrhau eglurder y diwylliant a'r arferion gwaith.
- Cyflwyno system rheoli grantiau newydd ar-lein i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Yn seiliedig ar y sicrwydd uchod gan y Swyddog Cyfrifo blaenorol, yr wyf wedi'i drafod gydag ef, ac ar sail fy adolygiad fy hun o'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu hwn, rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethu cadarn a system gadarn o reolaeth fewnol yn eu lle ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13. Roeddent yn cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru; yn hwyluso ymarfer swyddogaethau Chwaraeon Cymru yn effeithiol; ac yn diogelu cyllid ac asedau cyhoeddus, yr oedd y Swyddog Cyfrifo blaenorol yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r materion llywodraethu a rheoli hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a oedd wedi cael eu neilltuo i'r Swyddog Cyfrifo blaenorol, a nawr i mi, ym Memorandwm Swyddog Cyfrifo Trysorlys EM Llywodraeth Cymru.

SWYDDOG CYFRIFO: S Powell
Dyddiad: 10 Gorffennaf 2013

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNGOR CHWARAEON CYMRU

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 yn unol â'r cytundeb y darparwyd ar ei gyfer o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, a'r Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol cyfnerthedig hyn o dan y polisïau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd
Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i gael ei harchwilio, yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn datgan ei bod yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad ar y datganiadau ariannol
Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau Cyngor Chwaraeon Cymru ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n briodol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan Gyngor Chwaraeon Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Hanes a chefndir statudol, y Swyddfa gofrestredig, Datgan diddordeb, Canfod a rheoli risg, Diogelu data, Data absenoldeb salwch, Polisi cyflogeion, Cynllun pensiwn, Rheoli data personol, Polisi talu cyflenwyr a'r perfformiad a gyflawnwyd, Risg ariannol a rheoli cyfalaf, Tâl archwilwyr a'r rhan heb ei harchwilio o'r Adroddiad Tâl, i ganfod anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol, rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol
Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2013 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar reoleidd-dra
Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan yn yr Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio, y croesgyfeiriwyd ati yn nodyn 6 (d) o'r datganiadau ariannol, wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys y Bwrdd, y Sylwebaeth Reoli, Materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol, a Chynlluniau ar gyfer Cyfnodau yn y Dyfodol yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad
Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, y mae'n rhaid i mi adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru;
- nid oes cofnodion cyfrifo priodol wedi cael eu cadw;
- nid yw'r wybodaeth y manylwyd arni gan Drysorlys EM a Gweinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad 15 Gorffennaf 2013

DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013

		2012/2013	2011/2012
	Nodyn	**£000**	**£000**
GWARIANT			
Gwariant Grant	5	19,900	20,261
Costau Staff	6	4,976	5,397
Gwariant Arall	7	3,887	4,516
Dibrisiant: asedau sy'n eiddo	9	566	578
		29,329	30,752
INCWM			
Incwm o Weithgareddau	3	(2,461)	(2,642)
Incwm Arall	3	(20)	(34)
		(2,481)	(2,676)
Gwariant Net		26,848	28,076
Cost Cyllid Pensiwn		370	280
Diffyg/(Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer	8	14	(10)
Llog Derbyniadwy		(3)	(3)
		381	267
Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant		27,229	28,343
Trethiant Taladwy		1	-
Gwariant Net ar ôl Trethiant		27,230	28,343
Gwariant Cynhwysfawr Arall			
(Enillion)/Colledion Net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer		(291)	81
Pensiwn colled actwaraidd		1,690	4,100
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben		28,629	32,524

GWEITHREDIADAU SY'N PARHAU

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol, ac ni ddaethpwyd ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £27,230,000 (2011/2012 £28,343,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR 31 MAWRTH 2013

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2013 £000	Ar 31 Mawrth 2012 £000
Asedau Anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9(a)	282	337
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		282	337
Asedau Cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	4,101	4,137
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		655	500
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol		4,756	4,637
Cyfanswm yr Asedau		5,038	4,974
Atebolrwydd Cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(381)	(501)
Croniadau grant	12	(27)	(64)
Darpariaeth – diswyddo cyflogeion	18	(109)	(50)
Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol		(517)	(615)
Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net		4,521	4,359
Atebolrwydd Anghyfredol			
Atebolrwydd Pensiwn	17	(19,190)	(17,190)
Cyfanswm yr Atebolrwydd Anghyfredol		(19,190)	(17,190)
Asedau llai cyfrifoldebau		(14,669)	(12,831)
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		4,521	4,359
Cronfa bensiwn wrth gefn		(19,190)	(17,190)
Cronfa ailbrisio wrth gefn		-	-
		(14,669)	(12,831)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 10/07/2013 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

SWYDDOG CYFRIFO: S Powell (Prif Weithredwr Dros Dro)
10 Gorffennaf 2013

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O SEFYLLFA ARIANNOL CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR 31 MAWRTH 2013

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2013 £000	Ar 31 Mawrth 2012 £000
Asedau Anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	18,249	18,203
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		18,249	18,203
Asedau Cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	4,101	4,137
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	14	659	504
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol		4,760	4,641
Cyfanswm yr Asedau		23,009	22,844
Atebolrwydd Cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(381)	(501)
Croniadau grant	12	(27)	(64)
Darpariaeth – diswyddo cyflogeion	18	(109)	(50)
Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol		(517)	(615)
Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net		22,492	22,229
Atebolrwydd Anghyfredol			
Atebolrwydd Pensiwn	17	(19,190)	(17,190)
Cyfanswm yr Atebolrwydd Anghyfredol		(19,190)	(17,190)
Asedau llai cyfrifoldebau		3,302	5,039
Cyfanswm yr Atebolrwydd Anghyfredol			
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		14,587	14,213
Cronfa bensiwn wrth gefn		(19,190)	(17,190)
Cronfa ailbrisio wrth gefn		7,905	8,016
		3,302	5,039

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 10/07/2013 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

SWYDDOG CYFRIFO: S Powell (Prif Weithredwr Dros Dro)

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O LIF ARIAN CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013

Llif arian o weithgareddau gweithredu

	Nodyn	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Diffyg Net ar ôl llog		(27,229)	(28,343)
Diffyg/(Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer	8	14	(10)
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	566	578
Gostyngiad mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	36	616
(Gostyngiad) mewn masnach ac elfennau taladwy	11	(120)	(184)
(Gostyngiad) mewn croniadau grant	12	(37)	(26)
Llog a dderbyniwyd	13	(3)	(3)
Costau pensiwn	17	310	90
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer diswyddiadau	18	59	(704)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(26,404)	(27,986)

Llif arian o weithgareddau buddsoddi

Prynu eiddo, peiriannau ac offer	13	(335)	(553)
Llog a dderbyniwyd	13	3	3
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(332)	(550)

Llif arian o weithgareddau cyllido

Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido		(26,736)	(28,536)
Llog a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru	13	26,891	27,537
Cynnydd/(Gostyngiad) Net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		155	(999)

Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod

Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		504	1,503
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	14	659	504
		155	(999)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013

	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	Cronfa Gyffredinol	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2011	8,495	14,531	(13,000)	10,026
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(28,343)	-	(28,343)
Cyllid a dderbyniwyd	-	27,537	-	27,537
Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol	(81)	-	-	(81)
Costau pensiwn	-	90	(90)	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(398)	398	-	-
Colled actwaraidd	-	-	(4,100)	(4,100)
Cyllid ar 31 Mawrth 2012	8,016	14,213	(17,190)	5,039

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD CYFNERTHEDIG O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013

	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	Cronfa Gyffredinol	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2011	8,016	14,213	(17,190)	5,039
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(27,229)	-	(27,229)
Cyllid a dderbyniwyd	-	26,891	-	26,891
Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol	291	-	-	291
Costau pensiwn	-	310	(310)	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(402)	402	-	-
Colled actwaraidd	-	-	(1,690)	(1,690)
Cyllid ar 31 Mawrth 2012	7,905	14,587	(19,190)	3,302

Roedd £(14,670,000) yng nghyfrifon anghyfnerthedig Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2013 (31 Mawrth 2012 (£12,831,000)) gyda £17,972,000 (2011/12 £17,870,000) i'w briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU
NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN
A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013

1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2012-13 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo yn y Llawlyfr yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhynglwadol, fel a addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar sail wahanol, i gadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2005. Barn Chwaraeon Cymru am ddefnyddio sail wahanol yw nad yw unrhyw wahaniaethau'n debygol o fod yn rhai sylfaenol.

1.1 **Sail y cyfrifo**

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer.

1.2 **Cyllid**

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Hefyd, mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i weithredu Cynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol, a gredydir hefyd yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu a gyfyd.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a cherbydau a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

1.3 **Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn. Nid yw'r tir prydles o dan y brydles weithredu wedi'i gynnwys yn natganiad o sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru.

Mae offer a cherbydau'n gynwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £1,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

1.4 **Dibrisiant**

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Eiddo rhydd-ddaliadaeth	35 mlynedd
Eiddo prydles	50 mlynedd
Offer - cyfrifiaduron	3 blynedd
Arall	3 - 10 mlynedd
Cerbydau	5 mlynedd

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.5 **Stocrestri**

Mae gan Chwaraeon Cymru stocrestr ar gyfer dyrannu fel rhan o'i weithgareddau grant ac adlewyrchwyd y costau cysylltiedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae ganddo stocrestr ar gyfer ailwerthu, nad ystyrir yn sylfaenol. Nid yw'r stocrestr ar gyfer ailwerthu wedi cael ei chydnabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol: mae costau'r asedau hyn wedi cael eu cydnabod fel Gwariant Arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.6 **Pensiynau**

Neilltuir y cyfraniadau i gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru i'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan yr actwari. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

1.7 **Trethiant**

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 20% (21% 2012) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

1.8 **Grantiau taladwy**

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cynigir grantiau ar y sail o lunio ymrwymiad ariannol yn seiliedig ar gyfnod y prosiect. Yn aml iawn, nid yw'r cyfnodau hyn yn cyd-fynd â chyfnod cyfrifo Chwaraeon Cymru. Cyfrifir am yr holl wariant grant ar sail dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect a chymerir yn ganiataol bod y gwariant yn cael ei wneud yn gytbwys yn ystod oes y prosiect. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.10, Defnyddio amcangyfrifon a phenderfyniadau.

1.9 **Cyfuno**

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad oes raid ei gyfuno â'r cyfrifon hyn.

1.10 **Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau**

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

Nodyn 6 – Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

Nodyn 9(b) – Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

Nodyn 12 – Cyfrifir croniadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.8.

Nodyn 17 – Mae'r mesur o gyfraniadau buddiannau pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

1.11 **Offerynnau Ariannol**

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

1.12 **Nam**

Adolygir gwerth asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

1.13 **Darpariaethau – Diswyddo Cyflogeion**

Roedd y balans ar y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2013 yn cydnabod amcangyfrif o'r gost o ddiswyddo yn ystod 2012-13 (ond a delir yn 2013-14) a'r ddarpariaeth ar gyfer taliad yn erbyn y baich ar y gronfa bensiwn yn dilyn y cyhoeddiad bod y Prif Weithredwr yn ymddeol yn gynnar yn ystod 2013-14. Mae'r rhain wedi cael eu cyrif yn unol â pholisi Chwaraeon Cymru, y manylir arno yn Llawlyfr y Staff. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 18.

2. **DADANSODDIAD O'R GWARIANT CYNHWYSFAWR NET**

Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad.

Mae fformat blaenorol Chwaraeon Cymru wedi cael ei newid am ddadansoddiad manylach sy'n dangos y gwariant a ddyrennir mewn manylder.

		Cyfanswm 2012/2013 £000	**Cyfanswm 2011/2012 £000**
Y Canolfannau Cenedlaethol			
Refeniw	Nodyn 3	(2,431)	(2,543)
Gwariant Arall	Nodyn 7	1,855	1,782
Cyfraniad Gweithredu Net		(576)	(761)
Grantiau			
Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon	Nodyn 3	(30)	(99)
Gwariant Grant	Nodyn 5	19,900	20,261
Cost Gweithredu Net		19,870	20,162
Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol			
Incwm Arall	Nodyn 3	(20)	(34)
Gwariant Arall	Nodyn 7	2,032	2,734
Cost Gweithredu Net		2,012	2,700
Costau Staff	Nodyn 6	4,976	5,397
Costau Eraill			
Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau		2,347	5,026
Cost Gweithredu Net		2,347	5,026
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr		**28,629**	**32,524**

2. DADANSODDI'R GWARIANT NET CYNHWYSFAWR – PARHAD

Grants Expenditure £000



Overall Costs to Sport Wales



3. INCWM

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Incwm o weithgareddau:		
Grantiau Datblygu Chwaraeon:		
Mentro Allan	-	71
Arall	30	28
	30	99
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	2,431	2,543
	2,461	2,642
Incwm gweithredu arall:		
Adfer grantiau	1	12
Incwm arall	19	22
	20	34
Cyfanswm yr Incwm	2,481	2,676

4. GRANTIAU DERBYNIADWY GAN Y LLYWODRAETH

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol	26,891	27,537

5. GWARIANT GRANT

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Dewch i Gerdded Cymru	295	241
Perfformiad a Rhagoriaeth	7,471	7,963
AG a Chwaraeon Ysgol	2,121	1,627
Datblygu Pobl a Rhaglenni	-	62
Rhanbarthau	10,013	10,368
	19,900	20,261
Y Sector Cyhoeddus	11,693	12,480
Y Sector Preifat	8,207	7,781
	19,900	20,261

6. COSTAU STAFF

(a) **Parhaol:**	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Cyflogau a Thâl	4,915	5,156
Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau	166	396
Staff ar secondiad	(32)	(43)
Costau Nawdd Cymdeithasol	377	402
Costau Gwasanaethu Pensiwn a Chostau Eraill (Nodyn 18)	860	790
	6,286	6,701
Staff asiantaeth a chyfarwyddo	203	128
Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT	(1,513)	(1,432)
	4,976	5,397

(b) Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd (ac eithrio aelodau cyflogedig y Cyngor) yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

	2012/2013 Nifer	**2011/2012 Nifer**
Cyfanswm	144.2	150.5

Oherwydd natur eu rôl, nid oedd posib i ni ddarparu nifer y staff asiantaeth a chyfarwyddo ar sail cyfwerth ag amser llawn.

(c) Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael

	Nifer y diswyddiadau	
Band cost y pecyn ymadael	**2012-13**	**2011-12**
< £10,000	0	0
£10,000 - £25,000	1	6
£25,000 - £50,000	1	10
£50,000 - £100,000	1	7
£100,000 - £150,000	0	1
Cyfanswm y pecynnau ymadael	3	24
Cyfanswm costau adnoddau (£)	107,000	1,100,000

Talwyd taliadau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru ac nid cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

(d) Hawliau Cyflog a Phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a llog pensiwn Uwch Reolwyr Chwaraeon Cymru.

Tâl (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	**Teitl**	**Cyflog 2012/13**	**Cyflog 2011/12**
Yr Athro Laura McAllister (o 01/04/07 tan 31/01/2016)	Cadeirydd	35-40	35 - 40
Mrs Adele Baumgardt (Aelod o 01/04/09 tan 31/03/12) (ailbenodwyd yn Is Gadeirydd o 01/09/2012 tan 31/08/2015)	Is Gadeirydd	0-5 (5 -10 cyfwerth â blwyddyn lawn)	5 -10
Dr Huw Jones (o 01/01/03)	Prif Weithredwr	75-80	75 - 80
Mr Chris James (o 01/02/06 tan 31/10/2012)	Cyfarwyddwr Corfforaethol	40-45* (65-70 cyfwerth	65 - 70

		â blwyddyn lawn)	
Mrs Anne Hamilton (o 01/09/07 tan 30/09/11)	Pennaeth Gwasanaeth	-	25 – 30 (55 – 60 cyfwerth â blwyddyn lawn)
Mr Alan Williams (o 14/12/94)	Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	55-60	55 - 60
Ms Sarah Powell (o 01/09/07)	Cyfarwyddwr Corfforaethol	55-60	55 - 60
Mr Mark Frost (o 01/09/07)	Cyfarwyddwr Corfforaethol	55-60	55 - 60
Mr Malcolm Zaple (o 01/04/97)	Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	55-60	55 - 60
Ms Sian Thomas (o 06/04/09)	Cyfarwyddwr Corfforaethol	55-60	55 - 60
Mr Randal Hemingway (o 01/12/2012)	Cyfarwyddwr Corfforaethol	15-20 (50-55 cyfwerth â blwyddyn lawn)	-
Mr Richard Palmer (ailbenodwyd o 01/04/09 tan 31/03/12)	Aelod o'r Cyngor	-	5 - 10
Y Cynghorydd Robert Harris (ailbenodwyd o 01/04/09 tan 31/03/12)	Aelod o'r Cyngor	-	5 - 10
Y Parch Hywel Davies (ailbenodwyd o 01/04/09 tan 31/03/12)	Aelod o'r Cyngor	-	5 - 10

Enw	**Teitl**	**Cyflog 2012/13 £000**	**Cyflog 2011/12 £000**
Mr David Roberts (ailbenodwyd o 01/04/11 tan 31/03/14)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 - 10
Mr Martin J Warren (ailbenodwyd o 01/04/11 tan 31/03/14)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 - 10
Yr Athro John Baylis (o 01/04/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Mr Richard Cuthbertson (o 01/04/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Mr Andrew Morgan (o 01/04/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Mr Simon Pirotte (o 01/04/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Mr Paul Thorburn (o 01/04/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Mr Alan Watkin (o 01/05/2011 tan 31/03/2014)	Aelod o'r Cyngor	5 – 10	5 – 10
Ms Johanna Lloyd (penodwyd 01/09/2012 tan 31/08/2015)	Aelod o'r Cyngor	0-5 (5-10 cyfwerth â blwyddyn lawn)	-
Ms Julia Longville (penodwyd 01/09/2012 tan 31/08/2015)	Aelod o'r Cyngor	0-5 (5-10 cyfwerth â blwyddyn lawn)	-
Ms Janet Kingston (penodwyd 01/09/2012 tan 31/08/2015)	Aelod o'r Cyngor	0-5 (5-10 cyfwerth â blwyddyn lawn)	-
Mr Peter King (penodwyd 01/09/2012 tan 31/08/2015)	Aelod o'r Cyngor	0-5 (5-10 cyfwerth â blwyddyn lawn)	-

* Yn ychwanegol at y cyflog, gwnaed taliad diswyddo o £70,000.

Cymhareb Tâl Canolrifol
Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

	2012 / 13	2011 / 12*
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£ '000)	75 - 80	75 – 80
Cyfanswm Tâl Canolrifol	17,122	18,504
Cymhareb	4.5	4.2

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio (ac eithrio staff asiantaeth, gan nad ydynt yn sylfaenol),
2. Mae'r ffigurau cyflog blynyddol yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio dyddiad terfyn priodol ar gyfer y rhai sy'n dechrau ac yn gadael yn ystod y flwyddyn, a
3. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd tâl wedi'i fandio'r cyfarwyddwr oedd yn cael y tâl mwyaf yn Chwaraeon Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 yn £75,000-80,000 (2011/12 £75,000-80,000). Roedd hyn 4.5 gwaith (2011/12 4.2 gwaith) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £17,122 (2011/12 £18,504).

*Ailddatganwyd i eithrio taliadau diswyddo yn unol â chanllawiau diwygiedig Trysorlys EM.

Buddiannau Pensiwn (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed	Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2013 (cyfandaliad)	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2013	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2012	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Dr Huw Jones *Prif Weithredwr*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	25 – 30 (65 – 70)	560	525	35
Mr Chris James *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	10 – 15 (10 – 15)	148	136	7
Mr Randal Hemingway *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	0 – 2.5 (0.0 -2.5)	0 -5 (0 - 5)	2	-	1
Mr Alan Williams *Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	20 – 25 (45 – 50)	412	385	22
Ms Sarah Powell *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	10 – 15 (20 – 25)	142	130	8
Mr Malcolm Zaple *Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	15 – 20 (45 – 50)	340	320	16
Mr Mark Frost *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	10 – 15 (15 – 20)	171	155	11
Ms Sian Thomas *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	0 – 2.5 (-2.5 – 0.0)	5 – 10 (0 – 5)	48	39	5

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg penodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigur yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn

mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwariau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

7. GWARIANT ARALL

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio	25	25
Gwaith arall	4	4
Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:		
Aelodau	22	24
Staff y pencadlys	28	45
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	3	3
Datblygu Chwaraeon	124	130
Gwasanaethau cefnogi canolog	617	877
Marchnata a chyfathrebu	618	973
Ymchwil	426	585
Llog taladwy i Lywodraeth Cymru	2	2
Gwariant Arall:		
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	1,852	1,779
Datblygu Chwaraeon	163	69
Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	3	-
	3,887	4,516

8. GWAREDU EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

	2012/2013	2011/2012

	£000	£000
Gwerth llyfr crynswth	207	203
Disbrisiant cronnol	(151)	(201)
Gwerth llyfr net	56	2
Elw o werthu	42	12
(Diffyg)/Gwarged ar werthu'r ased	(14)	10

9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

(a) Y Cyngor:	**Offer £000**	**Cerbydau £000**	**TGCh £000**	**Cyfanswm £000**
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2011	296	88	197	581
Ychwanegiadau	84	14	48	146
Gwaredu	(15)	-	(7)	(22)
Ar 31 Mawrth 2012	365	102	238	705
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2011	(112)	(35)	(111)	(258)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(53)	(16)	(61)	(130)
Gwaredu	13	-	7	20
Ar 31 Mawrth 2011	(152)	(51)	(165)	(368)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2012	213	51	73	337
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2011	184	53	86	323

	Offer £000	**Cerbydau £000**	**TGCh £000**	**Cyfanswm £000**
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2012	365	102	238	705
Ychwanegiadau	44	20	17	81
Gwaredu	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	409	122	255	786
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2012	(152)	(51)	(165)	(368)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(65)	(21)	(50)	(136)
Gwaredu	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	(217)	(72)	(215)	(504)

Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2013	192	50	40	282
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2012	213	51	73	337

(b) Cyfnerthedig:

	Tir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £000	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £000	Offer £000	Cerbydau £000	TGCh £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2011	5,125	12,710	1,972	170	320	20,297
Ychwanegiadau	40	379	84	14	48	565
Gwaredu	-	-	(126)	(28)	(49)	(203)
Ailbrisio	(115)	(364)	-	-	-	(479)
Ar 31 Mawrth 2012	5,050	12,725	1,930	156	319	20,180
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2011	-	-	(1,654)	(117)	(227)	(1,998)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(139)	(259)	(96)	(16)	(68)	(578)
Gwaredu	-	-	124	28	49	201
Ailbrisio	139	259	-	-	-	398
Ar 31 Mawrth 2012	-	-	(1,626)	(105)	(246)	(1,977)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2012	5,050	12,725	304	51	73	18,203
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2011	5,125	12,710	318	53	93	18,299
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2012	5,050	12,725	1,930	156	319	20,180
Ychwanegiadau	88	208	44	20	17	377
Gwaredu	-	-	(179)	(26)	(2)	(207)
Ailbrisio	47	(158)	-	-	-	(111)
Ar 31 Mawrth 2013	5,185	12,775	1,795	150	334	20,239
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2012	-	-	(1,626)	(105)	(246)	(1,977)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(143)	(259)	(93)	(21)	(50)	(566)
Gwaredu	-	-	123	26	2	151
Ailbrisio	143	259	-	-	-	402
Ar 31 Mawrth 2013	-	-	(1,596)	(100)	(294)	(1,990)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2013	5,185	12,775	199	50	40	18,249
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2012	5,050	12,725	304	51	73	18,203

Fel rhan o dir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai ceir tir a brisiwyd yn £175,000 (2011/12 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisio'n annibynnol ar 31 Mawrth 2013 yn £17,960,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Tirfesurwyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio tir yn Athrofa Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles.

10. MASNACH AC ELFENNAU DERBYNIADWY ERAILL (DYLEDUS O FEWN BLWYDDYN)

Y Cyngor a Chyfnerthedig:	**Ar 31 Mawrth 2013 £000**	**Ar 31 Mawrth 2012 £000**
Masnach derbyniadwy	405	452
SPORTLOT	388	185
TAW	95	74
Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd	152	262
Rhagdaliad grant	2,182	1,672
Grant ad-daladwy	885	1,496
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus	(6)	(4)
	4,101	4,137

	Ar 31 Mawrth 2013 £000	**Ar 31 Mawrth 2012 £000**
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	485	261
Balans gydag awdurdodau lleol	970	1,557
	1,455	1,818
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	2,646	2,319
	4,101	4,137

11. MASNACH TALADWY AC ATEBOLRWYDD CYFREDOL ARALL

Y Cyngor a Chyfnerthedig:

	Ar 31 Mawrth 2013 £000	Ar 31 Mawrth 2012 £000
Masnach taladwy	43	41
Elfennau taladwy eraill	1	1
Croniadau	191	287
Incwm gohiriedig	146	172
	381	501

	Ar 31 Mawrth 2013 £000	Ar 31 Mawrth 2012 £000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	-	-
Balans gydag awdurdodau lleol	-	-
	-	-
Y Cyngor a Chyfnerthedig	381	501
	381	501

12. CRONIADAU GRANT

Y Cyngor a Chyfnerthedig:

	Ar 31 Mawrth 2013 £000	Ar 31 Mawrth 2012 £000
Grantiau Cronnol	27	64

13. LLIF ARIAN CRYNSWTH

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	3	3
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol		
Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer	(377)	(565)
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer	42	12
	(335)	(553)
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido		
Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4)	26,891	27,537

14. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

	2012/2013 £000	2011/2012 £000
Balans ar 1 Ebrill	504	1,503
Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod	155	(999)
Balans ar 31 Mawrth	659	504
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw mewn:		
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	659	504
Balans ar 31 Mawrth	659	504

15. YMRWYMIADAU CYFALAF YN Y CANOLFANNAU CHWARAEON CENEDLAETHOL

	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000
Contractiwyd ond heb dalu	-	22

16. ATEBOLRWYDD WRTH GEFN

Nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2013.

17. BUDDIANNAU I GYFLOGEION

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol yr aelodau.

Gwnaed y prisiad bob tair blynedd diweddaraf o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2010 ac mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actwarïau, yn gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau y mae'n berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Dangosodd y prisiau actwaraidd ar 31 Mawrth 2013 gynnydd yn y diffyg o £17,190,000 i £19,190,000. Roedd cyfraniad Chwaraeon Cymru i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 yn £920,000 (2011/12 £1,110,000) ar gyfradd o 21.5% (2011/12 21.5%) o'r tâl pensiynadwy. O 2013/14 ymlaen, bydd y gyfradd yn 21.5%.

Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £960,000 at y gronfa yn 2013/14. Hefyd, efallai y bydd angen cyfraniadau "baich ar y gronfa".

Prif Ragdybiaethau Ariannol

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
	(% y flwyddyn)	(% y flwyddyn)
Chwyddiant – CPI	2.8	2.6
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	4.7	4.6
Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau	2.8	2.6
Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig	2.8	2.6
Cyfradd gostyngiad	4.6	4.8
Yr adenillion a ddisgwylir ar asedau	6.9	7.2
Rhagdybiaethau marwoldeb: Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo) - Dynion - Menywod Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo) - Dynion - Menywod -	 24.0 26.8 25.7 28.8	 23.9 26.7 25.6 28.7

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2013.

I. Dadansoddiad o symudiadau'r gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Gwerth teg asedau'r gronfa	22.48	19.22
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(41.67)	(36.41)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(19.19)	(17.19)

(b) Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.86	0.79
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.00	0.13
Cost llog	1.76	1.70
Adenillion disgwyliedig ar asedau	(1.39)	(1.42)
Y Gost Gydnabyddedig	1.23	1.20

c) Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol	36.41	31.32
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.86	0.79
Cost llog	1.76	1.70
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.26	0.29
(Enillion)/colledion actwaraidd ar atebolrwydd	3.06	3.09
Buddiannau net a dalwyd	(0.68)	(0.91)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.00	0.13
Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi	41.67	36.41

d) Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Gwerth teg agoriadol yr asedau	19.22	18.32
Adenillion disgwyliedig ar asedau	1.39	1.42
(Enillion)/colledion actwaraidd ar asedau	1.37	(1.01)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.92	1.11
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.26	0.29
Buddiannau net a dalwyd	(0.68)	(0.91)
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	22.48	19.22

e) Adenillion gwirioneddol ar asedau

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Adenillion disgwyliedig ar asedau	1.39	1.42
(Enillion)/colledion actwaraidd ar asedau	1.37	(1.01)
Adenillion gwirioneddol ar asedau	2.76	0.41

f) Dadansoddiad o'r symiau Cydnabyddedig yn yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr Arall

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M
Cyfanswm y (colledion)/enillion actwaraidd	(1.69)	(4.10)
Cyfanswm y (colledion)/enillion mewn cronfeydd cadw	(1.69)	(4.10)

g) Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant a diffyg

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M	31 Mawrth 2011 £M	31 Mawrth 2010 £M	31 Mawrth 2009 £M
Gwerth teg yr asedau	22.48	19.22	18.32	17.39	12.48
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant	(41.67)	(36.41)	(31.32)	(32.56)	(23.43)
(Diffyg)	(19.19)	(17.19)	(13.00)	(15.17)	(10.95)

h) Hanes o Brofiad enillion a cholledion

	31 Mawrth 2013 £M	31 Mawrth 2012 £M	31 Mawrth 2011 £M	31 Mawrth 2010 £M	31 Mawrth 2009 £M
Profiad (colledion)/enillion ar asedau	1.37	(1.01)	(1.18)	3.42	(3.39)
Profiad (colledion) ar atebolrwydd	0.06	(0.18)	(0.92)	0.19	(0.06)

18. DARPARIAETH – DISWYDDIADAU CYFLOGEION A BAICH PENSIWN

	Diswyddiadau cyflogeion £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2012	50	50
Symudiad yn y ddarpariaeth	166	166
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(107)	(107)
Balans ar 31 Mawrth 2013	109	109

Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llif arian

	Diswyddiadau cyflogeion a baich pensiwn £000	Cyfanswm £000
Dim hwyrach na blwyddyn	109	109
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	0	0
Hwyrach na phum mlynedd	0	0
Balans ar 31 Mawrth 2013	109	109

Diswyddiadau Cyflogeion a Baich Pensiwn

Fis Ionawr 2011, cymeradwyodd Bwrdd Cyngor Chwaraeon Cymru ymarfer ailstrwythuro. Roedd cynllun manwl ar gyfer yr ymarfer hwn yn ei le ar ddyddiad y datganiadau ariannol, gan gynnwys nifer y diswyddiadau, ym mha adrannau ac ar ba radd. Fodd bynnag, nid oedd penderfyniadau wedi'u gwneud ym mhob achos o ran pa aelodau o staff fyddai'n cael eu diswyddo. Felly gwnaed amcangyfrif o'r atebolrwydd a chydnabuwyd darpariaeth ar gyfer costau o'r fath ar 31 Mawrth 2011. Mesurwyd y costau hyn ar sail gwasanaeth blwyddyn arferol ar gyfer y meysydd/swyddi a nodwyd. Yn ystod 2011/12, gwnaed taliadau i unigolion a'u gosod yn erbyn y ddarpariaeth. Hefyd, defnyddiwyd y ddarpariaeth ar gyfer diswyddiadau pellach y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, wedi iddo ei fodloni ei hun bod costau o'r fath yn bodloni gofynion y safonau cyfrifo. Amcangyfrifwyd y byddai cost y diswyddiadau pellach hyn ar 31 Mawrth 2012 yn £50,000. Yn ystod 2012/13, defnyddiwyd y ddarpariaeth a chytunodd y Bwrdd ar ragor o ddiswyddiadau. Erbyn 31 Mawrth 2013, roedd y ddarpariaeth wedi cael ei hailystyried i gynnwys y baich ar y gronfa

bensiwn (amcangyfrif o £77,000) yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weithredwr y bydd yn cymryd ymddeoliad cynnar; ac ar gyfer taliad diswyddo pellach o £32,000 ar gyfer unigolyn arall.

19. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD YN ÔL

Mae Dr H Jones, y Swyddog Cyfrifo, yn ymddeol ar 30 Medi 2013. Fel rhan o'r trefniadau pontio, daeth Sarah Powell, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn Swyddog Cyfrifo o 21 Mehefin 2013 ymlaen.

20. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd. Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylweddol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan diddordeb ynddynt.

Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymiadau cyfredol, ymrwymiadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
S Thomas *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	Pêl Droed yn y Gymuned Cymdeithas Bêl Droed Cymru	954	Partner yn Ymddiriedolai	3
A Williams *Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai*	Cymdeithas Hwylio Cymru	160	Aelod a merched yn hyfforddi/un yn ffisiotherapydd	-
	Undeb Beicio Cymru	332	Aelod	-
	Cymdeithas Ganŵio Cymru	270	Aelod	-
M Frost *Cyfarwyddwr Corfforaethol*	Clwb Criced Morgannwg	4	Aelod	-
	Bwrdd Criced Cymru	503	Cyn-Gyfarwyddwr	-
	Clwb Rygbi Penarth (Mini ac Iau)	-	Teulu Agos yn Aelodau	1
	Cyngor Sir Caerdydd	1,351	Gwraig yn Gyflogai	-
S Powell *Cyfarwyddwr*	Undeb Hoci Cymru	750	Aelod	12

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
Corfforaethol	Cymdeithas Achub Bywyd Syrff Cymru	4	Brawd yn Aelod	-
	Sports Coach UK	1	Cysylltiadau ag Achub Bywyd Syrff Cymru	-
	Corff Rheoli Carate Cymru	35	Cysylltiadau â Chlwb Carate Porthcawl lle mae ei Brawd yn Aelod	-
J Lloyd *Aelod o'r Cyngor*	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	342	Mam yn gyflogai	-
	CBS Rhondda Cynon Taf	805	Chwaer yn gyflogai	-
	Undeb Badminton Cymru	199	Chwaer yn darparu hyfforddiant	-
	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	36	Tad yn gyflogai	-
	Undeb Rygbi Cymru Cyf.	400	Tad yn swyddog gemau i Undeb Rygbi Cymru	-
	Prifysgol Morgannwg	7	Aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol	-
J Longville *Aelod o'r Cyngor*	Cyngor Sir Penfro	370	Ymgynghorydd gyda Chonsortia AG a Chwaraeon Ysgol y Gorllewin	-
	Cyngor Sir Powys	494	Fel uchod	-
	Cyngor Sir Castell-nedd a Phort Talbot	1,054	Fel uchod	-
	Dinas a Sir Abertawe	591	Fel uchod	-
	Cyngor Sir Ceredigion	254	Fel uchod	-
	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	36	Uwch Ddarlithydd	-

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
	Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	342	Cyn-Gyfarwyddwr a Hyfforddwr	-
	Cymdeithas Athletau Cymru	237	Mab yn athletwr gyda Chymdeithas Athletau Cymru	-
P King *Aelod o'r Cyngor*	Sport England	1	Cadeirydd – Bwrdd Cyfarwyddwyr (Athletau Lloegr)	-
	Undeb Beicio Cymru	332	Cyfarwyddwr Gweithredol (Beicio Prydain)	
			Prif Swyddog Gweithredol gynt.	-
	Cyngor Chwaraeon y DU	1	Cysylltiadau â Beicio Prydain	
A Baumgardt *Is-Gadeirydd*	Chwarae Teg Cyf.	5	Cyn-Aelod o'r Bwrdd (tan Hydref 2007)	-
Yr Athro L McAllister *Cadeirydd*	Pêl Droed yn y Gymuned Cymdeithas Bêl Droed Cymru	954	Cyfarwyddwr Bwrdd ac Ymddiriedolai	3
				-
	Y Sefydliad Materion Cymreig	2	Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolai	-
	Cyngor Chwaraeon y DU	1	Aelod Bwrdd	-
	Prifysgol Cymru Bangor	24	Meddu ar Radd er Anrhydedd	-
	Prifysgol Morgannwg	7	Meddu ar Radd er Anrhydedd	
M J Warren *Aelod o'r Cyngor*	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	36	Cyfarwyddwr Cyllid	-
Yr Athro J Baylis *Aelod o'r Cyngor*	Prifysgol Cymru	7	Cyn Is-Ganghellor	-

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
	Abertawe			
A Morgan *Aelod o'r Cyngor*	Undeb Golff Cymru	419	Cyn-Lywydd	-
	Cymdeithas Athletau Cymru	237	Aelod	-
P Thorburn *Aelod o'r Cyngor*	Undeb Rygbi Cymru	400	Llywydd Clwb Rygbi De Gŵyr	-
	Prifysgol Cymru, Abertawe	7	Cadeirydd Gêm Prifysgolion Cymru	-
	Undeb Beicio Cymru	332	Merch yn beicio i Undeb Beicio Cymru	-
	Cymdeithas Ganŵio Cymru	270	Cyn-Gadeirydd - Grŵp Llywio ar gyfer Cwpan y Byd 2012	-
A Watkin *Aelod o'r Cyngor*	Tennis Cymru	291	Cyfarwyddwr	-
	Undeb Hoci Cymru	750	Cadeirydd (Gogledd Cymru)	12
	CBS Wrecsam	298	Cyn-Brif Swyddog	-
D L Roberts *Aelod o'r Cyngor*	Gymnasteg Cymru	486	Partner yn Brif Weithredwr	-

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn Nodyn 6 (d) ar dudalennau 36 i 39.